

## Adroddiadau Canolfannau Cymraeg a Gofodau Dysgu

<b>Canolfan Tregaron</b>	<p>Mae'r gweithgareddau o gefnogi arferion iaith y disgyblion yn mynd rhagddi gyda nifer o ddigwyddiadau cyffrous yn cael eu cynnal. Rydym o'r diwedd wedi sicrhau ychydig o gyllid ar gyfer gweddnewid yr ystafell yn weledol, gan gynnwys sgrin rhyngweithiol – Clevertouch</p> <p>Mae'r gweithgareddau cefnogi arferion iaith disgyblion yn parhau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Clwb iwcaleili y Pic Tons yn cwrdd ac ymarfer</li><li>• Gorsaf Radio Ysgol lle darlledir bob hanner tymor</li><li>• Iaith a Drama – Cynhyrchiadau Mewn Cymeriad , theatr Felinfach ac Arad Goch</li><li>• Clwb yr Urdd</li><li>• Sgwadiu Serennu</li></ul> <p>Mae'r gweithgareddau dysgu ac addysgu yn parhau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Targedu grwpiau di hyder ar gyfer sesiynau gloywi</li><li>• Canolfan ar gyfer hwyrddyfodiaid</li><li>• Canolfan “dere draw” ar ôl ysgol ar gyfer cynorthwyo gyda gwaith ysgol a gwaith cartref</li><li>• Hyfforddiant athrawon</li></ul> <p>Defnyddir y ganolfan fel adnodd gymunedol.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyfarfodydd Gweithredu'n Lleol dan arweinyddiaeth Cered ein Menter Iaith</li><li>• Clwb drama theatr Felinfach</li></ul> <p><b>Heriau</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Gan nad yw'r campws cynradd wedi ei hadeiladu o fewn yr ysgol ar hyn o bryd mae'n anodd ymestyn y ddarpariaeth addysgu tu hwnt i'r sector uwchradd</li><li>• Yn yr un modd bwriadwyd targedu rhieni'r sector Gynradd ar gyfer mynychu dosbarthiadau a sesiynau blasu Cymraeg, ni fedrwyd gwneud hyn gan nad yw'r rhieni ar gampws yr adeilad eto. Rydym yn gweithio'n agos gyda Cymraeg i Oedolion i dargedu gwersi ond mae'r mwyafrif yn cael eu cynnal yn ystod y dydd.</li><li>• Bydd angen sicrhau defnydd cyson ac awyrgylch ddeniadol i'r ganolfan</li></ul>
<b>Canolfan Tŷ Tawe, Abertawe</b>	<p><b>Sefyllfa bresennol</b></p> <p>Agorwyd Tŷ Tawe yn 1987 ar ôl 5 mlynedd o ymgyrchu a chodi arian i gael canolfan Gymraeg ar gyfer dinas Abertawe. Yn ddiweddar dathlwyd ein pen-blwydd yn 30 mlwydd oed. Ni dderbyniodd Canolfan Tŷ Tawe unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru, er iddi dderbyn rhai cronfeydd Ewropeaidd rai blynyddoedd yn ôl i adnewyddu rhannau o'r adeilad.</p> <p>Yn y ganolfan, ceir dau far, ystafelloedd dysgu/cwrdd, neuadd, siop a swyddfeydd ar gyfer Menter Iaith Abertawe ac un o diwtoriaid Academi Hywel Teifi.</p>

	<p><b>Llwyddiannau hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytundeb blynyddol ag Academi Hywel Teifi i ddarparu ystafelloedd dysgu ar gyfer ei gyrsiau niferus (Cymraeg i oedolion/hanes/llynyddiaeth)</li> <li>• Presenoldeb Menter Iaith Abertawe yn yr adeilad trwy rentu ystafelloedd a chynnal digwyddiadau gwahanol yn yr adeilad</li> <li>• Yr unig Siop Gymraeg yn Abertawe</li> <li>• Rhaglen o ddigwyddiadau cymdeithasol wythnosol</li> <li>• Denu grwpiau eraill i gynnal cyfarfodydd yn y ganolfan</li> <li>• Croesawu Capel Gomer i gynnal gwasanaethau Sul yn yr adeilad wedi iddyn nhw werthu eu capel</li> <li>• Croesawu Gym Gym a Thîm Rygbi Prifysgol Abertawe</li> </ul> <p><b>Heriau'r dyfodol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Codi ymwybyddiaeth trigolion Abertawe o'r ganolfan</li> <li>• Cynyddu cynulleidfaoedd ar gyfer y digwyddiadau</li> <li>• Ehangu ar y rhaglen o ddigwyddiadau</li> <li>• Cynyddu nifer cwsmeriaid ac incwm y siop</li> <li>• Cynyddu incwm y ganolfan</li> <li>• Staffio'r Ganolfan</li> <li>• Cynyddu nifer y gwirfoddolwyr sy'n gallu helpu yn y ganolfan</li> <li>• Denu mwy o ymwelwyr i'r ganolfan er gwaethaf ei leoliad (ar gyrion yr ardal siopa)</li> <li>• Croesawu mwy o fyfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant</li> </ul>
<p><b>Tŷ'r Gwrhyd</b></p>	<p>Mae'n flwyddyn a hanner bellach ers i Ganolfan Gymraeg Tŷ'r Gwrhyd wedi bagor ei drysauod yn weithredol. Mae gGwefan newydd gynhwysfawr wedi cael ei chreu ar gyfer y Ganolfan sy'n galluogi ymholiadau arlein a chynnal dyddiadur llawn a chyfredol o ddigwyddiadau a dosbarthiadau. <a href="http://www.gwrhyd.cymru">www.gwrhyd.cymru</a></p> <p>Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot, Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe ac Urdd Gobaith Cymru â swyddfeydd yn yr adeilad ac yn cynnal gweithgareddau yn y Ganolfan gan ddarparu incwm rhent, ac mae'r trefniant gwerthfawr gyda'r cyrff hyn, o ran cyllid a nod strategol y Ganolfan, wedi parhau am yr ail flwyddyn.</p> <p>Mae siop lyfrau ac adnoddau Cymraeg Tŷ'r Gwrhyd yn llwyddo i ddenu ymwelwyr rheolaidd a newydd i'r Ganolfan o bob oed ac mae'r gwerthiant yn y siop yn creu ffrwd incwm gyson. Mae'r siop ar agor bob dydd Llun, Mercher, Gwener a bore Sadwrn yn sgil diffyg cyllid refeniw digonol i dalu am weithiwr llawn amser. Mae nifer yr ysgolion sy'n ein gwahodd ni i gynnal stondin yn eu digwyddiadau a'u ffeiriau wedi cynyddu – buom yn mynychu 16 ffair a digwyddiad hyd at Orffennaf 2016. Mae ymweliadau â rhagor o ffeiriau ar y gweill nawr gyda'r Nadolig. Er ei fod yn her staffio'r rhain weithiau, mae hyn yn rhoi cyfle i staff Tŷ'r Gwrhyd gwrdd â chwsmeriaid newydd – yn athrawon, rhieni a theuluoedd Cymraeg a di-Gymraeg sydd heb eto</p>

fynychu'r Ganolfan a rhannu gwybodaeth am wasanaethau eraill sy'n cael eu darparu gan Dŷ'r Gwrhyd – e.e. dosbarthiadau a sesiynau Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, a gweithgareddau'r Fenter. Mae defnydd o'r Ganolfan gan fudiadau a sefydliadau yn cynyddu. Yn ogystal â Merched y Wawr Pontardawe a Chlwb Darllen Cwm Tawe, mae Clwb Gwawr newydd Crotesi'r Cwm nawr yn cwrdd yn y Ganolfan ac mae Papur Bro Llais hefyd bellach yn defnyddio Tŷ'r Gwrhyd fel pencadlys . Mae'r Mudiad Meithrin hefyd yn cefnogi digwyddiadau Cymraeg i Blant sy'n cael eu cynnal yn y Ganolfan.+ Mae 8 o gyrsgau Dysgu Cymraeg yn cael eu cynnal yn y Ganolfan yn wythnosol, gan gynnwys dosbarth Cymraeg i'r Teulu, yn ogystal â chyrsgau a sesiynau dysgu anffurfiol cymunedol fel y Clwb Darllen i Ddysgwyr, Clwb Iwcaleli a Chwrs 'Cymru Ddoe a Heddiw'.

Cynhaliwyd clybiau ar ôl ysgol Gwyddoniaeth Gwyllt ar gyfer plant cynradd a sesiynau blasu addysg uwch i blant uwchradd Bl 9+ mewn cydweithrediad ag Ymgyrraedd yn Ehangach. Er mwyn cefnogi rheini di-Gymraeg sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg, sefydlwyd Clwb Darllen Cymraeg i Blant wythnosol gyda gwirfoddolwyr yn helpu plant sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg i ymarfer eu darllen. Mae'r Fenter Iaith a Chymraeg i Blant yn cynnal sesiynau amrywiol ar gyfer plant o bob oed gan gynnwys y bore Sbri Sadwrn misol ar gyfer plant dan 7, a Chlwb Sgiliau yn ystod gwyliau ysgol ar gyfer plant cynradd.

Mae staff Academi Hywel Teifi wedi cynnal rhaglen lawn o ddigwyddiadau addysgiadol/diwyllianol amrywiol cyson e.e. Noson i ddatlu camp Aneurin Karadog wrth ennill Cadair Eisteddfod y Fenni, Sgwrs gydag Alun Gibbard am ei gofiant i Carwyn James, Noson i gofio Rhodri Morgan yng nghwmni'r Athro Prys Morgan, Noson o gerddoriaeth i'r teulu gyda Gildas. Mae gGweisg bellach yn gofyn am gael lansio eu llyfrau gyda ni, ac yn cynnwys Tŷ'r Gwrhyd yn eu teithiau hyrwyddo llyfrau neu yn gofyn i ni werthu llyfrau mewn lansiadau mewn lleoliadau yn yr ardal, e.e Lansiadau cyfrol The Old Red Tongue gyda Meic Stephens, Nid Sianel Gyffredin Mohoni gyda Dr Elaine Price, Niclas y Glais gyda Hefin Wyn, Cardiau Chwedlau gyda Huw Aaron a hunangofiant Alun Wyn Bevan Atgofion Oes Ymysg y Campau. Bu'r Croesawyd Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc hefyd yni'r defnyddio'r Ganolfan fel lleoliadi gynnal cynhadledd ar gyfer cynrychiolwyr o blith holl disgyblion ysgolion Castell-nedd Port Talbot. Mae nifer o'r digwyddiadau hyn wedi cael sylw gan y cyfryngau Cymraeg.

Rydym yn parhau i gefnogi busnesau lleol o ran arlwygo a chyflenwi nwyddau sy'n fodd llwyddiannus o greu ewyllys da ac ymwybyddiaeth yn y gymuned leol. Yn dilyn llwyddiant y digwyddiad y llynedd, byddwn yn cynnal ffair Nadolig eto eleni gyda stondinau crefftwyr Cymraeg lleol, corau ysgolion lleol a gweithgareddau i blant wedi eu trefnu gan Cymraeg i Blant a'r Fenter Iaith.

Y prif her yw sicrhau adnoddau dynol digonol ar gyfer staffio'r Ganolfan fel bod modd agor derbynfa'r Ganolfan yn feunyddiol, ymweld â digwyddiadau cymunedol lleol, a chroesawu grwpiau a chloi'r Ganolfan wedi digwyddiadau. Pe bai modd derbyn cyllid

	<p>cyfatebol i ariannu swydd lawn amser byddai modd datblygu llawer mwy ar waith ac effaith y Ganolfan. Yr her debygol arall i weithrediad y Ganolfan yn y dyfodol agos yw effaith y toriadau i gyllideb yr Awdurdod Lleol, sy'n bartner yn y prosiect.</p>
<p><b>Yr Atom</b></p>	<p><b>Y Sefyllfa Bresennol</b></p> <p>Rydym wedi cadw'n driw at ein gweledigaeth wreiddiol sef cynnig Canolfan sy'n groesawgar ac yn agored i bawb o fewn cymdeithas tref Caerfyrddin a'r cyffiniau. Er mwn cadw at ein haddewid gwreiddiol rydym wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y drysau'n agored yn ystod gwahanol gyfnodau o'r dydd gan wneud defnydd llawn o'r gofodau sydd ar gael yn yr adeilad. I'r perwyl hynny rydym am y tro cyntaf yn ein hanes wedi sicrhau cytundebau a thenantiaid ar gyfer yr holl ystafelloedd yn Yr Atom. Gweler yn y rhestr isod y tenantiaid sydd wedi ymrwymo i'r adeilad i'r hir dymor.</p> <p>Cylch Meithrin Myrddin, Menter Gorllewin Sir Gâr, Caffi'r Atom, Pethau Da Y Carmarthen Journal, Cwmni Aramar, Cymru FM Arwerthwr tai</p> <p>Yn ogystal â'r tenantiaid parhaol mae'r cynllun aelodaeth sydd wedi ei greu wedi profi'n llwyddiannus gyda 12 busnes lleol yn defnyddio swyddfa a chyfleusterau'r adeilad yn rheolaidd i gynnal bwrlwm eu busnesau amrywiol. Gwelwn y cynllun aelodaeth yn gyfle euraidd i gefnogi busnesau yn y Gymraeg gan gynnig gwasanaethau amrywiol iddynt er mwyn gweld ei busnes yn ffynnu i'r dyfodol.</p> <p>Gwneid defnydd rheolaidd o'n hystafelloedd cynadledda gyda niferoedd o fusnesau a mudiadau'n defnyddio'r cyfleusterau'n rheolaidd. Rydym yn croesawu'r sector gyhoeddus i ddefnyddio'r cyfleusterau yn ogystal â busnesau a mudiadau trydydd sector. Yn gwyno gellir enghreifftio Tros Gynnal Plant, Comisiynydd yr Iaith, Cwm Environmental a grwpiau Cymdeithasol, e.e. Merched y Wawr, Bwyta Hapus, Llenyddiaeth Cymru, Comisiynydd yr Heddlu, TPAS Cymru, Cymdeithas Tai Bro fel esiamplau o gwmnïau sy'n manteisio ar gyfleusterau'r ganolfan yn gyson.</p> <p>Unwaith yn rhagor gellir nodi bod ei hymwneud gyda Atom yn gyfle euraidd i gydweithio drwy gynnig gwasanaethau Cymraeg amrywiol iddynt pe dymument a dwyieithiogi agweddau o'i gwaith yn ôl y glaw.</p> <p><b><u>Llwyddiannau</u></b></p> <p>Ers eich diweddarau yn y cyfarfod canolfannau diwethaf rydym wedi cynnal sawl digwyddiad amrywiol mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Gâr, Chyngor Tref Caerfyrddin a sefydliadau amrywiol eraill.</p>

Gweler isod esiamplau o'r gwahanol fathau o weithgareddau rydym wedi trefnu neu gefnogi mewn partneriaeth gyda'r sefydliadau:

- Steil Ysgol Gelf- cyfle i fyfyrwyr Coleg Sir Gâr gwerthu ei dillad i'r cyhoedd.
- Penwythnos Cer i Greu- cyd-weithio gyda Theatr Genedlaethol.
- Sioe Gelf Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin – arddangosfa ar gyfer disgyblion
- Noson Cymraeg yn y Gweithle - trafod yr iaith yn y gweithle yng Nghaerfyrddin (darlledwyd ar facebook live).
- Cynllun Aelodaeth- lluniwyd y cynllun aelodaeth gysylltiol cynnig cyfle i fudiadau nad ydynt yn denantiaid i fod â phresenoldeb mewn amgylchedd busnes prysur gan gynnig cefnogaeth ieithyddol pe dymument.
- Golwg ar Grwydr- digwyddiad gyda Golwg i drafod materion lleol gydag adloniant i gefnogi a chreu naws ar gyfer y noson.

#### **Gweithgareddau tu allan i'r Ganolfan:**

- Chwedlau Caerfyrddin - digwyddiad ar y cyd gyda chwmni 'Mewn Cymeriad'.
- Noddi Clwb Pêl-droed Lleol (Sêr Caerfyrddin) - wedi dwyieithog logo'r clwb ac yn cyd-weithio dros y tymor nesaf i barhau gyda chyflwyno'r iaith o fewn y clwb, e.e. holiaduron defnydd o iaith ar gyfer chwaraewyr, cerdyn post gyda'r prif dermau ieithyddol yn y Gymraeg wrth chwarae pêl droed i'w ddefnyddio gan y tîm rheoli a'r chwaraewyr.
- Sbri Siopa- gwneud defnydd o'r iaith yn ein siopau lleol yn ystod wythnos y glas i gefnogi myfyrwr yn y dref.
- Gwobrau Busnes dwyieithog cyntaf Tref Caerfyrddin. Fel un o brif drefnwyr y digwyddiad, penderfynodd yr Atom fod yna le i ddathlu mewn llwyddiannau a champau busnesau hen, newydd a phresennol yn nhref Caerfyrddin o ran y Gymraeg a dwyieithrwydd. Roedd y gwobrau hyn yn dathlu gan roi sylw ar fusnesau sydd wedi gwneud cyfraniad a dangos ymroddiad i ddwyieithrwydd a'r Gymraeg yn y dref. Noddwyd 9 categori gan y sector cyhoeddus a chwmnïau preifat. Drwy gydweithio a datblygu'r noson wobrwyo daethom i gysylltiad gyda 27 o fusnesau yn defnyddio'r iaith yn weladwy yn ei busnes yn y dref. Y cam nesaf yw adeiladau ar y seilwaith sydd wedi ei osod gan gydweithio a datblygu rhaglen waith mewn partneriaeth gyda'r Atom.

#### **Heriau'r Dyfodol**

Fel sydd wedi ei nodi yn y gorffennol prif her Yr Atom yw sicrhau ffrwd ariannol fel bo modd cefnogi cymdeithas leol drwy sicrhau bod yr Atom yn agored 7 diwrnod yr wythnos. Rydym yn parhau i ymchwilio i ddulliau, strategaethau a systemau amrywiol o gefnogi hynny i'r dyfodol er mwyn sicrhau bo'r ganolfan yn gynaliadwy am flynyddoedd

	i ddod.
<b>Y Man a'r Lle</b>	<p><b>Y Sefyllfa Bresennol a Llwyddiannau</b> Ers ei hagor ym mis Hydref 2016 mae'r Ganolfan wedi parhau i gael ei datblygu yn Ganolfan amlwrpas at ddefnydd y coleg a'r gymuned ehangach.</p> <p>Ymysg rhai o'r uchafbwyntiau bu:</p> <p><b>Gweithgareddau'r coleg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithdy Radio i fyfyrwyr gyda Marc Griffiths</li> <li>• Gweithdy Celf yng nghwmni yr artist Rwth Jen gyda disgyblion ysgol Gynradd Aberteifi a myfyrwyr Gofal Plant</li> <li>• Gig Diwrnod Miwsig Cymru gyda bandiau lleol</li> <li>• Sesiynau blasu "Dwylo Dawnus" ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd lleol</li> <li>• Noson wobrwyo Campws Aberteifi</li> <li>• Sesiynau Clocffit</li> <li>• Sesiynau Hyfforddiant Iaith i staff</li> </ul> <p>Defnyddir y Ganolfan gan y coleg hefyd ar gyfer amrywiaeth o gyfarfodydd mewnol.</p> <p><b>Gweithgareddau cymunedol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Noson o Adloniaint dan nawdd Gwyl y Cynhaeaf</li> <li>• Ymarferion Criw CICA (sioeau cerdd Cymraeg i ieuentid yr ardal)</li> <li>• Cystadlaethau Eisteddfod Gŵyl Fawr Aberteifi</li> </ul> <p>Defnyddiwyd y Ganolfan gan y mudiadau canlynol ar gyfer gweithdai amrywiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyngor Sir Ceredigion</li> <li>• Heddlu Dyfed Powys</li> <li>• Prifysgol Bangor</li> <li>• Cered</li> </ul> <p>Yn ogystal mae'r mudiadau canlynol yn defnyddio'r Ganolfan yn rheolaidd ar gyfer cyfarfodydd misol a thymhorol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gŵyl Fawr Aberteifi</li> <li>• Yr Urdd</li> <li>• Gŵyl y Cynhaeaf</li> <li>• Papur Bro Y Dwrgi</li> <li>• Cered</li> <li>• Opera Teifi</li> </ul> <p><b>Cymraeg i Oedolion</b> Mae rhaglen o ddosbarthiadau wythnosol wedi eu sefydlu yn y Ganolfan gyda 6 dosbarth gwahanol yn cael eu cynnal yn wythnosol.</p>

	<p><b>Cyllid</b>  Gan fod y Ganolfan yn rhan o strwythur Coleg Ceredigion mae costau rhedeg y Ganolfan yn cael eu cynnwys yng nghyllideb y coleg. Adeiladwyd y Ganolfan gyda'r nod o greu adeilad a fyddai mor gynaliadwy a phosib ac o ganlyniad nid oes unrhyw gostau ychwanegol wedi codi yn sgil gwresogi'r adeilad. Mae costau trydan a dwr hefyd wedi eu cadw i isafswm.</p> <p>Cynigir telerau rhesymol i gyrff cymunedol er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Ganolfan tra bod busnesau a chwmnïau preifat yn talu ar raddfa uwch.</p> <p><b>Y Dyfodol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyrsiau Busnes – yn gynharach eleni derbyniwyd cadarnhad fod cais am nawdd “Cynnal y Cardi” i lunio rhaglen hyfforddiant ar gyfer busnesau bach yr ardal ar ddefnydd o'r Gymraeg dan adain Cered wedi bod yn llwyddiannus. Dros yr haf penodwyd dau swyddog i weithio ar y cynllun gyda'r bwriad o ddatblygu gweithgaredd Cymraeg i fusnesau yn y Ganolfan yn Aberteifi. Mae'r gwaith ymchwilio a fydd yn sail i'r rhaglen bellach wedi dechrau.</li> <li>• Rhaglen Gymunedol - mae'r coleg yn parhau i weithio gyda Cered i lunio rhaglen o weithgaredd cymunedol ar gyfer gwahanol grwpiau yn y gymuned. Bwriedir cynnwys y canlynol fel rhan o raglen gymunedol ar gyfer 2018: <ul style="list-style-type: none"> <li>– Sesiynau jamio</li> <li>– Gweithdai côdio</li> <li>– Gweithdai Mapio a Minecraft</li> <li>– Twmpathau Dawns</li> <li>– Sesiynau Stori a Chân</li> <li>– Sesiynau Ymwybyddiaeth Ofalgar</li> </ul> </li> </ul> <p style="text-align: right;"><i><b>Tachwedd 2017</b></i></p>
<p><b>Saith Seren</b></p>	<p><b>Sefyllfa bresennol</b>  Fis Ionawr 2018, bydd Saith Seren yn dathlu chwe mlynedd fel Canolfan Gymraeg yn Wrecsam. Rydan ni mewn gwell sefyllfa ariannol nac erioed ac yn parhau i fwynhau cefnogaeth gyson oddiwrth tua 200 o gefnogwyr bob mis. Mae'r ganolfan yn cynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau drwy'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill sy'n cael eu defnyddio yn y dre.</p> <p><b>Llwyddiannau hyd yn hyn</b>  Dal i fod ar agor! Mae digwyddiadau Cymraeg wedi gwella o ran cynulleidfaoedd dros y blynyddoedd ac rydan ni bellach yn medru denu criwiau da i weld bandiau a pherfformwyr newydd yn hytrach na dibynnu ar yr hen stejars yn unig fel Bryn Fôn a Dafydd Iwan. Difyr</p>

	<p>nodi y byswn ni wedi medru cynnal dwy noson efo Bryn Fôn gyda 130 o docynnau yn gwerthu o fewn 24 awr. Pan gaeodd siop Gymraeg y dre y llynedd, llwyddon ni i gynnal siop wib misol ar y cyd efo Siop Cwlwm ac mae hyn bellach yn digwydd bob pythefnos oherwydd ei lwyddiant. Mae gwersi Cymraeg yn parhau i'w cynnal yn y ganolfan ac mae'n gyrchfan i fwy a fwy o ddysgwyr, sy'n defnyddio'r bar ac yn trefnu adloniant eu hunain er mwyn gwella'u Cymraeg llafar.</p> <p><b>Heriau'r dyfodol</b></p> <p>Mae canol tre' Wrecsam, lle mae Saith Seren, yn diodde'n enbyd oherwydd problemau gwrth-gymdeithasol, cyffuriau a diffyg pobl yn siopa. Mae hyn wedi effeithio arnom ni yn ogystal a phob busnes arall yn y dre. Mae'n frwydr barhaol i ddenu cwsmeriaid a gall problem ariannol fawr (e.e. y to angen ei atgyweirio) orfodi i ni gau neu adleoli. Mae'n rhent yn wirion o uchel - £2,100 y mis - ac rydan ni'n trafod gyda'r landlordiaid i weld os y gallwn brynu'r adeilad gan y byddai morgais yn rhatach ac yn golygu cael ased ar ddiwedd y cyfnod. Mae'n adeilad cofrestredig felly does dim posibil ei altro'n sylweddol ar y tu allan.</p>
<p><b>Canolfan Drochi Môn</b></p>	<p><b>Sefyllfa bresennol</b></p> <p>Bob ysgol Gynradd ond dwy ym Môn yn ysgol Gymraeg laith gyntaf erbyn hyn</p> <p>2 canolfan laith hwyr ddyfodiad yn rhedeg dros y tri thymor ar gyfer y Cynradd. Targedu oddeutu 30 bob tymor.</p> <p>Canolfannau laith wedi gwireddu yn dda iawn ym Môn ac ysgolion yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth. Disgyblion yn derbyn gwersi trochi am 10 wythnos di dor . 4 athro a dau gymhorthydd</p> <p>Adoddau TG apiau dunydd canu a darllen wedi eu creu gan Menter Mon a chydweithio agos hefo ysgolion a gyda theuleuoedd blynyddoedd cynnar</p> <p>Cynllun sabothol wedi hyrwyddo 12 Cymhorthydd i dderbyn Hyfforddiant gloyw laith</p> <p>Ysgolion Cybi wedi derbyn cyfres o wersi dros dymor yr haf yn ymwneud a dulliau trochi ar lawr dosbarth gan arbenigwyr laith.</p> <p>Canolfan hwyr ddyfodiad i'r uwchradd wedi rhedeg am ddau dymor. Bellach yn ail edrych ar y ddarpariaeth a cynllunio i barhau ymellach canolfannau trochi uwchradd tymor byr gyda pecyn cynhaliaeth yn y fam ysgol .</p> <p>Pob ysgol Uwchradd yn gwneud defnydd da o arian PCAI yn flynyddol</p> <p>Ysgolion yn awyddus iawn i gryfhau darpariaeth Cymraeg ac yn ymwybodol ac yn gweithredu ar gynllun gweithredu CSGA .</p> <p>Llwyddiannau hyd yn hyn</p> <p>Wedi llwyddo i newid agwedd ysgolion Cyni i'r angen bod rhaid dilyn polisi Cymraeg laith gyntaf.</p> <p>Darpariaeth trochi hwyrddyfodiad yn y cynradd wedi gwreiddio ac yn llwyddiannus</p> <p>Cyd weithio hynod o effeithiol gydag asiantaethau fel Menter Môn Ffermwyr ifanc yr Urdd i sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael profiadau</p>



	<p>Cymraeg tu fewn a thu allan i furiau ysgol. Ysgolion Uwchradd yn awyddus i gael canolfannau hwyr ddyfodiad i drochi disgyblion ond . Wedi llwyddo i newid agwedda bellach yr angen wedi ei chydabod.</p> <p><b>Heriau'r dyfodol</b> Sicrhau gweithlu sy'n gymwys i addysgu pynciau traws cwricwlaidd mewn Cymraeg yn yr Uwchradd Hyfforddi mewnol o fewn ysgol i sicrhau glowy laith gan pob gweithiwr Sicrhau arian penodol i gyflogi gweithwyr cymwys i arwain ar ganolfanu hwyr ddyfodiad i'r Uwchradd.</p>
<p><b>Yr Hen Lyfrgell</b></p>	<p>Digwyddiadau Yr Hen Lyfrgell</p> <p>Hydref 2017 #shwmaeCaerdydd Rhwyng ymweliad Taith yr Iaith a chriw Mewn Cymeriad, dathliadau diwrnod Shwmae Su'mae, a chyhoeddi Gwobr Cerddoriaeth Gymreig yn y caffi-bar – mae wedi bod yn fis prysur arall yma yn Yr Hen Lyfrgell. Ar drothwy mis Tachwedd, dyma edrych yn ôl ar rai o ddigwyddiadau'r mis, gan edrych ymlaen at yr hyn sydd i ddod...</p> <p>Gŵyl Hanes Fest a Mewn Cymeriad I ddathlu Gŵyl Hanes Fest eleni roedd Cwmni Theatr 'Mewn Cymeriad' yn teithio i leoliadau treftadaeth arbennig ar hyd a lled Cymru er mwyn perfformio sioeau un dyn ac un ferch am hanes yr iaith Gymraeg a Chymru. Roedd lleoliadau y daith yn cynnwys Canolfan Owain Glyndŵr, Byd Mary Jones, Cestyll Caerffili, Castell Coch, a Sain Ffagan; a mis yma, bu'r actor, Llion Williams, yn trawsnewid Ystafell Gynhadledd Yr Hen Lyfrgell yn lwyfan a theatr i blant ysgolion cynradd y ddinas. Bwriad yr ŵyl yw dod a hanes Cymru yn fyw i blant drwy gydio yn eu dychymyg gyda pherfformiadau rhyngweithiol a difyr. Blwyddyn nesaf, mi fydd criw yn ceisio tanio dychymyg plant Cymru gyda straeon am gymeriadau'r chwyldro diwydiannol. Ar ôl profi natur ddeinamig y sioeau eleni rydyn ni'n edrych ymlaen yn barod i gael clywed mwy!</p> <p>Gwobr Cerddoriaeth Gymreig Yn Yr Hen Lyfrgell Ar nos Wener yr 20fed o Hydref, daeth llu o dalentau cerddoriaeth Gymreig yma i'r Hen Lyfrgell, i glywed y DJ enwog, Huw Stephens, yn cyhoeddi ennillydd y Wobr Cerddoriaeth Gymreig, 2017. Mae'r wobwr yn un uchel ei pharch, gyda'r enwebiadau yn cynnwys Georgia Ruth, Gruff Rhys a HMS Morris. Roedd hi'n noson wefreiddiol yn marcio cychwyn penwythnos llawn cerddoriaeth Cymraeg yn y ddinas gyda Gŵyl Sŵn. Llynedd, Meilyr Jones gipiodd y tlws, eleni Gareth Bonello, The Gentle Good aeth â hi. Trwy ganu yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae'r albwm fuddugol, Ruins/ Adfeilion, gan yr artist ifanc o Gaerdydd, yn cyfuno'r arddull gwerin gyda dylanwadau modern seicedelig, sy'n llawn haeddianol o'r wobwr. Llongyfarchiadau mawr</p>

iddo!

Enillydd haeddiannol Gwobr Cerddoriaeth Gymreig, Gareth Bonello (The Gentle Good) a'i wobr arbennig cyflwynwyd iddo gan DJ Huw Stephens. Bydd gwaith celf yr albymau yn cael eu harddangos yn y caffi yn barhaol felly galwch heibio u'w gweld. Ma' nhw'n gelfydd.

Shwmae Roger ?

Cyflwyno'r criw

Y mis yma rydym ni'n siarad gyda Roger, rheolwr siop Bodlon, Yr Hen Lyfrgell. Dyma fe'n ateb ein cwestiynau amrywiol..

Yn gynta', llaeth neu llefrith? Llaeth (wedi'w seinio Llâth!)

O ble wyt ti'n dod yn wreiddiol? Gan oedd fy nhad yn y Llu Awyr does dim cysyniad o le gwreiddiol – nathon ni symud trwy gydol fy mhлentyndod. Mae rhan fwya'r teulu o Ferthyr Tydful ac Aberdar, felly rwy'n cyfrif rheina fel gartref!

Ers pryd wyt ti'n byw yng Nghaerdydd? Dwi ddim yn byw yng Nghaerdydd rhagor ond yng Ngwm Cynon (Hen Wlad fy mam!).

Hoff le yng Nghaerdydd? Chai Street – dwlu ar fwyd Indiaidd.

Hoff artist o Gymru? Cerddorol? Hoff iawn o'r band Calan.

Peint neu gwydryn o wyn? Peint – neu potel o win!

Be yw eich hoff beth am weithio yn Bodlon? Cwrdd â phobl diddorol o led led Cymru a'r byd pellach.

Beth yw'r eitem mwy' diddorol ar werth yn siop bodlon ar hyn o bryd ? Ew – mae hynny'n anodd! Os oes rhaid i fi ddewis baswn i'n dweud y printiau Rhithganfyddiad, sy'n cynnig gwelediad newydd ar amgylchoedd Caerdydd.

Mae Rhithganfyddiad yn ara' deg yn ehangu ei map trawiadol o Gaerdydd drwy greu darluniau o holl ardaloedd arbennig y ddinas, un print ar y tro. I weld Llanisien, Pontcanna a Threlai drwy lygaid Rhithganfyddiad dewch i Bodlon.

Ar y gweill ...

Mi fydd cyfarfod blynyddol Menter Caerdydd yn cael ei gynnal yn Yr Hen Lyfrgell eleni ar y 28ain o Dachwedd. Dewch i glywed am ddatblygiadau a gwaith arbennig y Fenter yn y ddinas a thu hwnt. Dyma gyfle, hefyd, i chi gyfrannu tuag at y Gymraeg yng Nghaerdydd. Elfed Roberts o Eisteddfod Genedlaethol Cymru fydd y siaradwr gwadd. Er mwyn archebu lle e-bostiwch [leanne@mentercaerdydd.cymru](mailto:leanne@mentercaerdydd.cymru) cyn y 24ain o Dachwedd.

Dathlu'r Nadolig

Ydych chi'n dal i chwilio am y lleoliad perffaith ar gyfer parti Nadolig staff? neu ydych chi am drefnu cinio Nadolig arbennig i chi a'ch ffrindiau? Mae Llaeth a Siwgr yn barod i helpu gyda bwydlen yn llawn danteithion traddodiadol a blasus. Os ydych chi'n chwilio am bryd

twrci gyda greffi traddodiadol neu bryd cnau rhost llysieuol mae ystod eang o ddewis ar y fwydlen. Er mwyn archebu eich bwrdd anfonwch e-bost i [contact@milkandsugarplease](mailto:contact@milkandsugarplease)

Syllu ar walia'

lansiad llyfr Ffion Dafis.

Mae llyfr newydd yr actores adnabyddus Ffion Dafis, Syllu ar walia', yn llawn straeon difyr a gonest am ei bywyd, Cymru a thu hwnt.

Ymunwch a ni ar gyfer noson lansio'r gyfrol hunangofiannol ffraeth yng Nghaffi'r Hen Lyfrgell ar nos Gwener y 10fed o Dachwedd am 7 o'r gloch. Digwyddiad sydd wedi ei drefnu gan Y Lolfa. Bydd Ffion Dafis yn sgwrsio gyda Kate Crocket am ei chyfrol a bydd perfformiadau gan yr actorion Rhian Blythe a Rhys ap Iefor. Yn ogystal â cherddoriaeth byw gan westai cerddorol arbennig. Mi fydd hi'n noson ddifyr o berfformio, yfed a chymdeithasu wrth glywed am y gyfrol gyffrous hon.

Dewch i wyllo'r rygbi!

Mae gemau rygbi rhyngwladol yr Hydref rownd y gornel ac mi fydd pob gem Cymru yn cael ei ddarlledu ar y sgrin fawr yma yng nghaffi Llaeth a Siwgr. Dewch i fwynhau awyrgylch a gwyllo'r gem ar y sgrin fawr. Dyma ddyddiadau'r gemau:

Sadwrn 11eg o Dachwedd / CYMRU v. AWSTRALIA

Sadwrn 25ain o Dachwedd / CYMRU v SELAND NEWYDD

Sadwrn 2il o Ragfyr / CYMRU v DE AFFRICA

I archebu bwrdd ar gyfer un o'r gemau rygbi e-bostiwch [contact@milkandsugarplease.com](mailto:contact@milkandsugarplease.com)

Cerdyn Ffrind

Mae Caffi Llaeth a Siwgr hefyd yn parhau i gynnig gostyngiad o 10% i bob un o Ffrindiau Yr Hen Lyfrgell – felly cofiwch gyflwyno'ch carden wrth dalu!

Eisteddfod Caerdydd 2018

Ydych chi'n meddwl trefnu rhywbeth i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018? Efallai gallwn ni eich helpu. Rydyn ni eisiau cefnogi'r Eisteddfod yng Nghaerdydd gymaint ag sy'n bosibl felly cysylltwch â ni gydag unrhyw ymholiadau: [post@yrhenlyfrgell.cymru](mailto:post@yrhenlyfrgell.cymru) neu (029) 2022 5982